
Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Llywio Cymru:

## Eich Senedd



Ein cyfeiriad ar-lein:
**senedd.cymru**

## Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Eich Senedd, yn gweithio i chi

### Mae gan Gymru ei senedd ei hun – sef Senedd Cymru.

Mae Senedd Cymru yn pasio deddfau am bob math o bethau sy'n effeithio ar eich bywyd bob dydd yng Nghymru.

Pethau fel ysbytai a meddygon teulu, ysgolion ac addysg, ffyrdd a rheilffyrdd, ffermio, diwylliant, yr amgylchedd a'r iaith Gymraeg.

Mae gan Senedd 96 o Aelodau a etholwyd o bob cwr o Gymru. Maen nhw'n eich cynrychioli chi a'ch cymuned.

Gadewch i ni edrych yn fanylach ar sut mae'r Senedd yn gweithio.

# Datganoli yng Nghymru

**Ers 1999, mae penderfyniadau am Gymru wedi cael eu gwneud yng Nghymru.**

Datganoli sy’n gyfrifol am hyn.

Mae 'datganoli' yn golygu bod y pŵer i wneud cyfreithiau a pholisïau ar gyfer Cymru wedi cael ei drosglwyddo o Lywodraeth y DU a Senedd y DU i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru.



**Gallwch ddysgu mwy drwy ymweld â senedd.cymru/datganoli**



# Deddfu ar gyfer Cymru

## Mae Aelodau o'r Senedd yn trafod, yn gwirio ac yn gwneud deddfau sy'n llywio bywyd yng Nghymru.

Mae deddfau yn rheolau sy'n gwneud yn siŵr eich bod chi'n cael eich parchu a'ch trin yn gyfartal. Maen nhw'n amddiffyn y rhai sydd mewn angen ac yn cynnig ffyrdd o ddatrys anghytundebau.

Mae Senedd y DU yn gwneud deddfau sy'n berthnasol i bob rhan o'r DU. Fodd bynnag, ers 2007, mae'r Senedd wedi gwneud deddfau mewn llawer o feysydd ar gyfer Cymru yn unig.

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i senedd.cymru/deddfwriaeth**

# Cadw golwg ar Llywodraeth Cymru

## Mae gan y Senedd a Llywodraeth Cymru rolau gwahanol.

Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu cyfreithiau, yn gwneud polisïau, ac yn penderfynu sut i wario arian ar bethau fel ysbytai, ysgolion a ffyrdd yng Nghymru.

Mae Aelodau o'r Senedd yn edrych yn ofalus ar unrhyw gyfreithiau newydd y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig cyn iddyn nhw gael eu pasio. Maen nhw'n trafod y deddfau ac efallai y byddant yn awgrymu newidiadau i'w gwella.


Mae’r Senedd yn gwirio polisïau Llywodraeth Cymru, ac yn edrych ar sut y caiff arian ei wario ar y gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

**Mae Aelodau o'r Senedd yn gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn gweithio er budd pobl Cymru.**


### Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y pethau canlynol:



Gwario arian ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.



Rheoli gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.



Cynllunio sut y bydd Cymru yn tyfu ac yn datblygu yn y dyfodol.


### Mae’r Senedd yn gyfrifol am y pethau canlynol:



Gwirio gwaith Llywodraeth Cymru.



Gwneud cyfreithiau newydd i Gymru.




Edrych ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwario arian.

**A wyddech chi?**

Parliament yw'r gair Saesneg am Senedd.

# Cynrychioli eich buddiannau chi

**Mae gan yr Aelodau sy'n eich cynrychioli chi yn y Senedd y pŵer i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru.**

Mae'r Senedd yn gwneud cyfreithiau ar gyfer Cymru. Mae cyfreithiau Cymru yn ystyried y sefyllfa yng Nghymru, a all fod yn wahanol i rannau eraill o'r DU.

Fodd bynnag, mae rhai meysydd yn dal i fod yn gyfrifoldeb i Senedd y DU a Llywodraeth y DU.

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i senedd.cymru/pwerau**

## Mae'r materion datganoledig yn cynnwys:

- Amaethyddiaeth a Bwyd
- Addysg
- Cymunedau a Thai
- Gwasanaethau Iechyd a Gofal
- Y Gymraeg
- Yr Amgylchedd

## Mae materion a gadwyd yn ôl yn cynnwys:

- Trafnidiaeth Awyr
- Ynni Niwclear
- Y Gofod
- Materion Tramor
- Amddiffyn
- Plismona

### Deddf Cymru 2017

Newidiodd Deddf Cymru 2017 y ffordd y mae datganoli'n gweithio yng Nghymru.

Cyn hynny, dim ond yn yr 21 o feysydd a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yr oeddem ni'n gallu deddfu.

# Eich cynrychioli chi a'ch cymuned

## Mae'r Aelodau o'r Senedd yn dod o bob rhan o Gymru i'ch cynrychioli chi a'ch cymuned yn y Senedd.

Pan nad ydyn nhw'n gweithio ym Mae Caerdydd, mae gan y rhan fwyaf o'r Aelodau swyddfa leol. Gallwch siarad â nhw am faterion sy'n ymwneud â'ch cymuned chi a gallan nhw godi eich pryderon yn y Senedd.

Mae gan bawb yng Nghymru chwe Aelod o'r Senedd i'w cynrychioli. Gallwch gysylltu ag unrhyw un ohonyn nhw – wyneb yn wyneb, ar-lein, neu dros y ffôn – dim ots dros bwy y gwnaethoch chi bleidleisio. Mae pob un ohonyn nhw yn eich cynrychioli chi'n gyfartal.

**Gallwch ddysgu mwy am bwy sy'n eich cynrychioli, a sut i gysylltu â nhw drwy fynd i senedd.cymru/aelodau**





# Cytuno ar drethi newydd yng Nghymru

## Mae Aelodau o'r Senedd yn edrych ar bob awgrym o ran treth newydd i Gymru.

Rydych chi'n talu trethi mewn nifer o wahanol ffyrdd. Defnyddir eich trethi i dalu am wasanaethau cyhoeddus megis ysbytai, ysgolion a ffyrdd.

Mae Cyllid a Thollau EF yn casglu trethi gan bawb yn y DU. Fodd bynnag, ers 2018, mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi bod yn gyfrifol am gasglu rhai trethi yng Nghymru. Mae'r trethi hyn yn aros yng Nghymru, i'w gwario gan Lywodraeth Cymru ar wasanaethau cyhoeddus yr ydych chi'n eu defnyddio bob dydd.

Dyna'r tro cyntaf i Gymru gasglu ei threthi ei hun ers dros 800 mlynedd.


Mae angen i bob awgrym o ran treth newydd gael ei drafod yn fanwl gan Aelodau o'r Senedd i sicrhau ei bod yn deg, ac y bydd o fudd i bawb yng Nghymru.

# Eich pleidlais chi

**Os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn ac yn byw yng Nghymru, fe allwch chi bleidleisio yn etholiad y Senedd.**

Etholiad y Senedd yw'r adeg pan fydd pleidleiswyr yng Nghymru yn penderfynu pwy fydd yn cynrychioli eu hardal leol – eu hetholaeth – yn Senedd Cymru. Mae'r etholiad yn digwyyddpob pedair blynedd.

Mae gan bob ardal chwe 'sedd' yn y Senedd, sy'n golygu y bydd gan bob etholaeth chwe Aelod. Felly, lle bynnag rydych chi'n byw yng Nghymru, mae chwe Aelod yn eich cynrychioli chi a'ch cymuned yn y Senedd.




**Gallwch ddysgu mwy drwy fynd i**
senedd.cymru/sut-y-caiff-aelodau-eu-hethol

# Cysylltu â ni

## A oes gennych gwestiwn am y Senedd?

Mae yna lawer o ffyrdd y gallwch chi gysylltu â ni i ddarganfod rhagor am sut mae'r Senedd yn gweithio a sut y gallwch ddweud eich dweud.

Cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod, neu dewch i'n gweld a siarad â ni ym Mae Caerdydd.


**www.senedd.cymru**

**cysylltu@senedd.cymru**

**0300 200 6565**

**@SeneddCymru**

**SeneddCymru**

**SeneddCymru**

**Y Senedd, Bae Caerdydd, CF99 1SN**